

Cenn@d

GORFFENNAF 28 2021 YN CYNNWYS Y GOLEUAD A SEREN CYMRU RHIF 22

Colli 'cyfleoedd cenhadol' cyfnod y clo

A hithau'n gyfnod y Sioe Fawr a'r Eisteddfod Genedlaethol, mewn dyddiau arferol byddai nifer o fentrau cenhadol i dystio ac efengylu yn cael eu cynnal. Dyma hefyd dymor y gwersylloedd Cristnogol megis Cwrs Ieuentid Coleg y Bala, gwersylloedd gan Saint y Gymuned a'r Mudiad Efengylaidd a fyddai'n cael eu cynnal dros yr haf. Ond eleni, a'r digwyddiadau yma wedi eu gohirio eto unwaith yn rhagor, yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn trafod tybed beth fydd ein dulliau o dystio a chenhadu wrth edrych tua'r dyfodol.

Gweinidogaeth a Chenhadaeth

Mae'n debyg y bydd llawer eglwys yn ystyried bod eu gwaith yn gwasanaethu Duw yn disgyn i ddau brif gategori, sef gweinidogaethu (gofalu am y bobl sydd o fewn teulu'r eglwys, yn ysbrydol ac yn gorfforol) a chenhadu (ymestyn allan i'r bobl hynny tu allan i fywyd yr eglwys gyda'r newyddion da am Iesu Grist). Dros gyfnod y clo, mae'n debyg y gellid diolch am y cyfleoedd a ddaeth i'n rhan i 'weinidogaethu' – a hynny drwy addoliad ac astudiaeth yn rhithiol a dros y we, yn ogystal â gweinidogaeth cyfeillgarwch, gofal bugeiliol, gwasanaethu cymuned a chynnal y gwan a'r bregus ynghanol unigrwydd a gofid. O'r cychwyn cyntaf, fe ymatebodd yr eglwys i gynnal oedfaon a chyfarfodydd eraill yn rhithiol, a bu'n flaengar yn gofalu am yr anghenus mewn cymunedau ledled y wlad.

Diffyg cyfleoedd cenhadol

OND, mae'n debyg y byddem hefyd yn gorfod cydnabod mai prin fu'r cyfleoedd i ymestyn allan yn genhadol a chyrraedd cenhadaeth newydd o bobl. Heb os, bu'r cyfnod clo yn gyfle i dynnu i mewn rai unigolion a oedd efallai ar ymylon bywyd yr eglwys. Gwelwyd nifer yn ymuno'n rhithiol mewn oedfaon ar Zoom nad oeddent yn mynychu'r oedfaon yn y capel cyn hynny, ac mae hynny'n destun llawenydd wrth gwrs.



Ond fe brofodd y gwaith 'cenhadol' i fod yn fwy o her. Daeth y digwyddiadau ymestyn allan fel gwasanaethau Llan Llanast i ben am y tro, a chlybiau CIC ieuentid, neu grwpiau 'Ti a Fi' a 'Panad a Chlonc' yn cael eu hatal hefyd. I'r sawl sy'n ymddiddori mewn ystadegau enwadol, gwelwyd lleihad yn nifer yr aelodau gan yr holl enwadau traddodiadol yng Nghymru dros ddegawdau lawer. Cafwyd lleihad yn nifer yr aelodau, mynychwyr oedfaon, nifer y bedyddiadau a phriodasau, ac mae'n debyg y bydd ystadegau'r ddwy flynedd ddiwethaf hyn yn dwysáu'r sefyllfa honno fwyfwy.

Mae sôn eisoes am nifer o gapeli na fydd yn ailagor eu drysau wedi'r cyfnod yma, ysgolion Sul yn dod i ben a llawer o deuluoedd wedi colli dwy flynedd o ddigwyddiadau teuluol. Mae sawl teulu'n ysu am gael ailddechrau oedfaon teuluol, ysgol Sul ayyb, ond beryg bod eraill wedi arfer efo patrwm gwahanol i'r Sul erbyn hyn. Bydd teuluoedd di-ri sydd heb fedyddio'u plant: tybed faint o ymholiadau a ddaw yn y misoedd nesaf, neu tybed a fydd yna ymbellhau eglwysig wedi digwydd yn y toriad byr hwn?

Dim gwyliau na digwyddiadau eto eleni!

Mae cyfnod yr haf i ni yng Nghymru yn gyfnod cynnal nifer o wyliau cenedlaethol a rhanbarthol, ac yn arferol mae llawer menter genhadol Gristnogol wedi bod yn rhan o'r gwyliau hyn. Ym mis Mehefin, fel rhan o'r Wyl Eisteddfod yr Urdd, fe fydd gan Cytûn a Chyngor yr Ysgolion Sul babell ynghanol y maes. Pabell yn llawn bwrllwm, o rannu lolipops a phaentio wynebau i rannu straeon Beiblaidd a llenyddiaeth Gristnogol i blant, ac erbyn diwedd yr wythnos yn addasu i gynnig cyfleoedd i'r ieuentid gael gofod i gyfarfod. Bydd yna drelar neu stondin gan y Mudiad Efengylaidd ar y maes hefyd, ac ar adegau gwahanol gwelwyd mentrau cenhadol lleol fel Trobwynt a Scripture Union yn trefnu gweithgaredd penodol.



[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Lle i enaid gael llonydd
Tudalen 3

Cofio'r Arglwydd Elystan-Morgan
Tudalen 4

Eisteddfod Rhithiol Cenn@d
Tudalen 5

Colli 'cyfleoedd cenhadol' cyfnod y clo

(parhad o dudalen 1)

Ym mis Gorffennaf, mae'r sylw'n troi tuag at y Sioe Fawr yn Llanellwedd, ac eto mae Pabell yr Eglwys ynghanol y maes yn cynnig croeso i bawb sydd am droi i mewn, gyda phaned a theisen gri, diodydd a gweithgareddau ar gyfer y plant, arddangosfa am waith cenhadol, dyngarol Cymorth Cristnogol, heb sôn am wasanaethau a sgysiau. Bydd tîm o oddeutu 12 o gaplaniaid yn camu allan o'r babell ac yn crwydro'r maes, gan gynnal sgysiau gydol y dydd, tra mae tîm o gaplaniaid iau yn gweithio ym mhentref leuentid y sioe ymhlith pobl ifanc. Bob blwyddyn fe fydd pabell arall, sef Share Jesus, gyda thua 30 o wirfoddolwyr yn trefnu digwyddiadau i blant a theuluoedd, gan rannu'r newyddion da am Iesu, a threlar y Mudiad Efengylaidd hefyd yn barod i sgwrsio â phawb sy'n pasio heibio.

Erbyn mis Awst, mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn wyl arall lle gwelir yr eglwys yn ymestyn allan. Mae Pabell yr Eglwys yn amlwg ar y maes, yn groesawgar drwy gynnig paned a sgwrs i bwy bynnag sy'n dymuno hynny. Bydd nifer o weinidogion a lleygwyr ar gael bob amser, a sawl sgwrs fugeiliol yn digwydd yn ddyddiol. Yn yr un modd ceir stondinau gan Gymorth Cristnogol a Chymdeithas y Beibl, ill dau eto'n cynnig croeso ac yn atgoffa eu cyd-Gymry o'r stori Gristnogol. Bydd criw'r Gorlan Gristnogol hefyd yn weithgar ar Faes B, yn cynnig eu paneidiau a thost, heb anghofio'r Pot Nwdls i wersyllwyr y maes ieuentid, ac mor braf yw gweld tîm o oddeutu 20 o Gristnogion ifanc yn gwasanaethu eu cyd-Gymry yn y modd hwn. Bydd gan y Mudiad Efengylaidd hefyd dîm o wirfoddolwyr yn cynnal sgysiau â phobl, ac yn rhannu bractiau a chylchgronau Cristnogol.

Bydd stondinau eglwysig mewn ambell wyl ranbarthol hefyd, fel Tafwyl a Sioe Môn, ac mae bob amser yn braf gweld yr eglwys yn y manau cyhoeddus hyn lle mae torfeydd yn ymgynnull. Ond bu i nifer o eglwysi hefyd fethu trefnu digwyddiadau mwy 'teuluol' a chenhadol eu naws oherwydd y cyfyngiadau caeth ar gyfarfod yn dorfol, a diffyg hyder gan lawer i fentro wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio.

Er y tristwch o ddarllen am ganslo'r uchod, medrwn fod yn ddiolchgar yr un pryd fod cymaint â hyn yn digwydd mewn cyfnod cyn y pandemig, ac edrychwn ymlaen yn hyderus at 2022 er mwyn cael ailgydio yn llawer o'r mentrau hyn. Ni ddaeth pob dim i stop chwaith, a braf oedd clywed am ambell eglwys yn mentro trefnu digwyddiadau cenhadol. Bu i Caersalem, Caernarfon, drefnu digwyddiad Tanio'r Haf ym mis Gorffennaf. Meddai Rhys Llwyd, 'Yn ystod y cyfnod clo cynhaliwyd Llan Llanast ar Zoom, menter ar y cyd rhwng Caersalem a Seilo, Caernarfon, a hefyd Cynllun EFE sy'n gwasanaethu ardaloedd Llanrug, Llanberis a phentrefi cyfagos. Yn ogystal â bod yn fodd i gadw perthynas gyda theuluoedd yr eglwys roedd yn gyfle cenhadol hefyd i wahodd teuluoedd newydd i mewn i weithgaredd yr eglwys a chlywed hanesion o'r Beibl. Roedd teuluoedd yn cofrestru ymlaen llaw ac yna'n derbyn pecyn creffttau trwy'r post cyn i'r sesiwn ei hun ddigwydd dros Zoom ar brynhawniau Sul, unwaith y mis.

'Wrth i dymor yr haf ddechrau, penderfynwyd rhoi'r gorau i gyfarfod ar Zoom oherwydd y byddai atyniadau eraill yn denu'r teuluoedd ar brynhawniau Sul sych trwy'r haf. Felly, aed ati i drefnu un digwyddiad awyr agored er mwyn rhoi cyfle i'r teuluoedd oedd wedi bod yn cyfarfod dros Zoom gyfarfod ei gilydd wyneb yn wyneb. Trefnwyd y digwyddiad, sef Tanio'r Haf, yn ddiogel ac yn yr awyr agored yn

dilyn canllawiau Covid. Daeth hanner cant ynghyd ac roedd hi'n fendith gweld pobl wyneb yn wyneb nad oeddem wedi cael y cyfle i'w gweld ers 18 mis! Ond y cwestiwn mawr nawr yw beth i'w wneud erbyn tymor yr hydref? Mynd yn ôl at Zoom ynteu cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb? Amser a ddengys, ond rhyw gymysgedd o'r ddau, dybiwn i.'

Mabwysiadu 2022 fel 'blwyddyn o dystiolaeth'

Diolch am bob ymgais genhadol gyffelyb a drefnwyd, ond yn gyffredinol rhaid i ni gydnabod na lwyddwyd i gynnal cymaint o'r mentrau arferol yn 2020 na chwaith yn 2021. Bu'r effaith ar genhadaeth yr eglwys, yn lleol ac yn genedlaethol, yn llawer mwy andwyol na'r disgwyl, sy'n codi cwestiwn pwysig o sut mae modd i ni ymateb i'r her hon wrth edrych tua'r dyfodol. Gyda dros 95% o boblogaeth Cymru bellach y tu allan i weithgarwch yr eglwys, a llawer mwy o bobl bellach yn diffinio'u hunain fel 'digrefydd', mae angen i enwadau ac eglwysi Cymru ymateb ar fyrder i droi'r llanw.

Beth am i ni ymrwymo i edrych o'r newydd ar batrwm ein gwaith fel eglwys ac enwadau? Tybed oes angen rhoi llai o bwyslais ar gynnal yr hyn sydd gennym eisoes a neilltuo mwy o egni a meddwl ar sut y gallwn gyrraedd cynulleidfau newydd sydd angen clywed y newyddion da am Iesu Grist. Mae pecyn fel 'Sôn am Iesu' gan Hope yn adnodd gwych i helpu pobl i siarad am eu ffydd, ac mae llawer o adnoddau lliwgar ac apelgar ar gael i'n helpu yn y gwaith.

Efallai fod yna her i'r enwadau hefyd i feddwl sut y gellir cydweithio a brandio hyn i gyd, er mwyn cyflwyno un llais a neges glir i bobl Cymru: boed mewn cenhadaeth leol neu mewn stondin ar faes yr Eisteddfod. A gall hyn fod yn flaenoriaeth ar gyfer 2022, er mwyn rhoi cenhadaeth a thystiolaeth 'nôl yn glir ac amlwg ar agenda ein gweithgarwch. Cofiwch am eiriau Rhufeiniaid 10: 'Sut maen nhw'n mynd i gredu ynddo heb glywed amdano? Sut maen nhw'n mynd i glywed os ydy rhywun ddim yn dweud wrthyn nhw? A phwy sy'n mynd i ddweud wrthyn nhw heb gael ei anfon? Dyna mae'r ysgrifau sanctaidd yn ei olygu wrth ddweud: "Mae mor wych fod y rhai sy'n cyhoeddi'r newyddion da yn dod!" Mae'n rhaid clywed cyn gallu credu - clywed rhywun yn rhannu'r newyddion da am y Meseia.'

Dyma her i ni i gyd ar gyfer 2022 a thu hwnt!



Lle i enaid gael llonydd

Gwae a Gobaith y Dyfroedd Tawel

Ar lan afon Alun mae llannerch goediog a ffynnon sanctaidd yn byrlymu yn ei chanol. Nid oes dim i'w glywed ond sŵn hudolus y dŵr sy'n peri i ddyn deimlo fel pe bai mewn swyngwsg.

Y tro cyntaf i mi sefyll ger Ffynnon Degla yn Llandegla, teimlais flas y cynfyd a gwyddwn fod y man yma wedi bod yn gysegredig i ddyn ymhell, bell, yn ôl. Yn sicr roedd hon yn ffynnon oedd yn gysegredig i'r hen dduwiau Celtaidd cyn dyfodiad Cristnogaeth i'r ynysoedd hyn.

Yn rhyfedd iawn, paganaidd oedd patrwm y defodau a ddilynwyd o gwmpas y ffynnon a hynny tan tua 1850.

Beth, meddech chi, oedd yn denu pobl at y ffynnon arbennig hon? Dyma'r unig ffynnon yng Nghymru y gwn i amdani oedd yn honni gwella epilepsi neu'r haint digwydd, clwyf Tegla neu'r *falling sickness* yn Saesneg. Mae'n salwch andwyol iawn sy'n dinistrio bywydau unigolion a theuluoedd.

Yn Efengyl Mathew 9:14–29 cawn enghraifft o sut y byddai Iesu'n delio â'r salwch. Yr esboniad ar y cyflwr yn y cyfnod hwnnw oedd mai ysbryd aflan oedd yn meddiannu'r claf. Roedd tad wedi dod â'i fab at Iesu, ond ar y pryd roedd yr Arglwydd wedi mynd i ben mynydd Tabor gyda Pedr, Iago ac Ioan, ac wedi cael ei weddnewid yno. Wedi'r profiad ysbrydol bythgofiadwy hwnnw, rhaid oedd dychwelyd at weddill y disgyblion wrth droed y mynydd. Roedd y tad, yn absenoldeb Iesu, wedi ceisio cael y disgyblion i iacháu'r bachgen, a hyn wedi achosi cryn gynnwrf ymhlith y dorf oedd



Ffynnon Degla

wedi ymgasglu yno. Methiant fu ymgais y disgyblion i fwrw'r ysbryd allan. Holodd Iesu'r tad yn fanwl am gyflwr ei fab ac wrth i Iesu orchymyn i'r ysbryd adael y bachgen cafodd hwnnw ei daro'n wael a syrthiodd yn anymwybodol ar lawr. Gafaelodd Iesu yn ei law a'i godi i fyny yn holliaich.

Chwilio am wellhad ger y ffynnon

Nid ar fater bach y byddai rhywun yn mynd drwy'r broses anodd a chostus o gael iachâd. Rhaid oedd dod at y ffynnon wedi machlud haul ar nos Wener a cherdded o gwmpas y ffynnon deirgwaith gan adrodd Gweddi'r Arglwydd deirgwaith ar y tri thro. Os mai gwrywaidd oedd y claf, cariai geiliog mewn basged ond iâr os mai benywaidd ydoedd. Yna, rhaid oedd pigo'r aderyn â phin, ei blygu ac yna'i daflu i'r ffynnon a thalu pedair ceiniog i glerc y plwyf yn y fan a'r lle.

Cerdded wedyn i fyny at yr eglwys a cherdded o'i chwmpas deirgwaith gan gario'r aderyn ac adrodd Gweddi'r Arglwydd deirgwaith. Yna aed i mewn i'r

eglwys, rhoi pedair ceiniog arall ym mlwch y tlodion cyn gorwedd o dan fwrdd y Cymun neu'r allor gyda'r Beibl yn glustog a thynnu carped drosto. Ar doriad gwawr rhoddi'r claf big yr aderyn yn ei geg a chwythu i mewn iddo gan drosglwyddo'r afiechyd iddo cyn ei adael yn rhydd. Rhoddid darn o arian ym mlwch y tlodion a gadael yr aderyn yn yr eglwys. Pe byddai'r creadur farw, yna byddai'r claf yn gwella. Cerddai'r claf yn ôl at y ffynnon, cerdded o'i hamgylch deirgwaith gan adrodd Gweddi'r Arglwydd bob tro – cymysgedd hynod o Gristnogaeth a defod baganaidd.

Gallwch ddod o hyd i'r ffynnon ryfeddol hon wrth droi oddi ar yr A5104 gyferbyn â'r capel a mynd at yr eglwys, lle mae maes parcio. Wedyn cerdded i lawr at y bont a dilyn y mynegbost at y ffynnon.

Tybed a wnewch chi deimlo gwae a gobaith y rhai ddaeth ati i geisio gwellhad a'r rhai a ddaeth at Iesu mewn ffydd?

Eirlys Gruffydd-Evans

Croeso i'r Gymdeithasfa yn y De

Braint ac anrhydedd yw cael eich croesawu i Gymdeithasfa'r De, sydd yn cael ei chynnal yng Nghapel Llanddarog, ar 29 Gorffennaf 2021.



Dowch yn rhithiol i'r Gymdeithasfa yn y De. Gweddiwn y bydd bendith Duw yn gorffwyso ar ein cyfarfyddiad, ar ein penderfyniadau a'n holl weithgaredd.

Hoffem ddymuno pob bendith i'r llywydd presennol, y Parch Ian Sims, a diolchwn iddo am ei arweiniad doeth bob amser. Edrychwn ymlaen at groesawu Mr Cliff Williams, ein darpar lywydd, i'r gadair a dymunwn fendith Duw arno wrth iddo gymryd at yr awenau.

Dymunwn fendith Duw ar ein hysgrifennydd, y Parch Dafydd Andrew Jones, a gymerodd

at y gwaith dros y Parch Wyn Morris pan oedd yn cael triniaeth, a pharhawn i weddio am wellhad llawn iddo yntau.

Gweddiwn dros Anthony Platt wrth iddo gymryd at waith yr Ysgrifennydd.

Mae croeso cynnes i bob un ymuno yn ein cyfarfod cyhoeddus am 6.30 yr hwyr, lle bydd yn bleser o'r mwyaf cael ordeinio Mr Emyr Williams i'r weinidogaeth. Gweddiwn ar i Dduw ofalu drosto a'i ofalaeth wrth iddo ddechrau ar ei weinidogaeth.

Dilynwch y ddolen am ragor o wybodaeth am sut i ymuno:

www.ebcpcw.cymru/cy/sasiwn-y-de/

Pwyllgor Gwaith Cymdeithasfa'r De

Cofio'r Arglwydd Elystan-Morgan

Ym marwolaeth yr Arglwydd-Elystan Morgan ar 7 Gorffennaf yn 88 oed, ar ôl cystudd hir, collodd Cymru ŵr mawr.


Elystan oedd arwr gwleidyddol fy llencyndod: cofiaf yn dda berfformiad tanbaid ac angerddol ganddo mewn dadl deledu pan safai fel ymgeisydd Plaid Cymru yn 1959 yn etholaeth gyfagos Wrecsam. Fe'm hysbrydolwyd ganddo i sefyll fel ymgeisydd y Blaid mewn ffug etholiad yn Ysgol Ramadeg (dra Seisnigedig) Llangollen – ac, er syndod imi, enill! Bùm wedyn yn ymgyrchu drosto pan safodd ym Meirionnydd yn 1964. Mewn dyddiau pan oedd cyfarfodydd gwleidyddol yn dal yn eu bri, fe'i cofiaf fel areithiwr heb ei ail, a gyflwynai ei ddadleuon a'i argyhoeddiadau mewn iaith goeth, a'i lif a'i gyfaredd yr un boed yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ond i raddau helaeth ffigur a edmygwn o hirbell oedd y gwleidydd ifanc dawnus; fe adwaenwn Alwen – a ddaeth yn briod iddo – o ardal gyfagos Carrog yn well.

Ddegawdau yn ddiweddarach – ar ôl symud i dreflan y Dole ar gyrion Bow Street a dod yn gymydog agos iddo, yn gyd-aelod yng Nghapel y Garn ac am ychydig flynyddoedd ar derfyn ei oes yn gyd-flaenor ag ef – y deuthum i wir adnabod Elystan. Ar aelwyd Carregafon wrth fwynhau ei groeso a 'rhoi'r byd yn ei le' (chwedl yntau) weithiau fe drafodem droeon ei yrfa wleidyddol; mentrais gyfaddef wrtho imi nid yn unig ganfasio o'i blaid ym Meirion ond hefyd yn ei erbyn pan safodd dros Lafur ym Môn yn 1979. Y mae gwleidyddiaeth yn bwysig, ond y mae hefyd, wrth gwrs, bethau anhraethol bwysicach.

Soniais am gynhygsaeth ieithyddol Elystan. Mewn cylchoedd lle'r oedd gafael ar iaith yn anhepgor – gwleidyddiaeth a'r gyfraith a'r farnwriaeth – y bu'n gweithredu'n broffesiynol, a Saesneg oedd prif iaith y cylchoedd hynny. Ond mewn teyrnged iddo fe soniodd y gohebydd gwleidyddol Vaughan

Roderick yn dra phriodol am loywyd ei Gymraeg ('Cymraeg perffaith'). Fe'i magwyd ar aelwyd hynod lengar, a'i dad, Dewi Morgan, yn Fardd Cenedlaethol ac yn gyfaill i feirdd megis T. Gwynn Jones a Gwenallt. Ar ben magwraeth felly meithrinwyd doniau ieithyddol Elystan hefyd gan ei fagwraeth grefyddol. Yn amllder goludog ei eirfa a chadernid ei gystrawen, Cymraeg William Morgan a'i Feibl oedd grwndwal Cymraeg Elystan. Fe'i breintiwyd â chof rhyfeddol: gallai hau dyfyniadau'n ddiymdrech ac i bwrpas yn well na neb a adnabùm erioed. Yr oedd tair prif ffynhonnell i'w gronfa helaeth o ddyfyniadau: y Beibl, y llyfr emynau, a gweithiau beirdd gorau Cymru o'r cywyddwyr ymlaen.

Yr oedd Elystan yn ymneilltuwr o hil gerdd. Ei hen-hen-dadcu, John Watkins, Brysgaga, a roes y tir i adeiladu Capel y Garn arno yn 1833. Yr oedd ei hen-dadcu, y Parch. Enoch Watkin James (1818–94), yn weinidog ar eglwys i'r Borth a Dôl-y-bont a etholwyd yn Llywydd Cymdeithasfa'r De, gŵr chwedlonol o amryddawn: gweinidog, ffermwr, cynghorydd sir, ynad heddych, pysgotwr, beirniad ceffylau, saethwr, englynwr, a hefyd meddyg esgyrn o fri! Ar ochr ei dad perthynai Elystan i olyniaeth o flaenoriaid yn y Garn a ymestynnai'n ddi-dor dros bedair neu bum cenhedlaeth. Pan fu farw yr oedd Elystan wedi bod yn flaenor yn y Garn am hanner can mlynedd: fe'i hetholwyd yn Ionawr 1971 ac fe wasanaethodd dan bum gweinidog gwahanol. Bu'n eithriadol o ffyddlon i'r achos, fel ei briod hoff, Alwen, pan oedd hithau'n fyw: yn ystod ei gyfnod fel barnwr – galwedigaeth a olygai gryn deithio heb sôn am faich a chyfrifoldeb ei ddyletswyddau – sonnir ei fod yn dychwelyd bob penwythnos i gymryd ei le yn ei gornel yn y Sêd Fawr bob Sul. Llefara'i bob amser gyda graen ac awdurdod, boed yn cyhoeddi fel Blaenor y Mis neu pan gâi gyfle i ledi ei adenydd yn ddeallusol ac yn ddiwinyddol, megis mewn cyfarfodydd sefydlu gweinidogion neu gyfarfodydd ymadael: ef, yn rhinwedd ei allu a'i urddas a'i huodled



Trwy garedigrwydd Iestyn Hughes

digymar oedd y dewis naturiol ac anorfod i lefaru ar ran yr eglwys. Dim ond yn ystod ei flynyddoedd olaf y cefais y profiad o'i gwmi yng nghyfarfodydd blaenoriaid y Garn. Buan y gwelais barch enfawr fy nghyd-flaenoriaid, mwy profiadol na mi, i'w gyngor, ei graffter, a'i ddoethineb mawr. Yr oedd achos y Garn yn hollbwysig iddo: ys dywedodd yn ei hunangofiant *Elystan: Atgofion Oes* (2012), 'Bu Eglwys y Garn yn aelwyd gynnes imi er pan oeddwn yn blentyn'. Teimlai aelodau'r Garn hwythau gynhesrwydd mawr ato yntau: bydd hiraeth a bwllch rhwth ar ei ôl.

Heb os, yr oedd Elystan – pleidiwr dyfal, taer a galluog dros Gymru fel endid gwleidyddol – yn genedlgarwr mawr. Ac, wrth gwrs, fe arddelai sosialaeth. Ond sosialydd o fath arbennig ydoedd. Nid yn athroniaeth Karl Marx y gwreiddiwyd ei sosialaeth, ond yn radicaliaeth ei fagwraeth ymneilltuol a'r gwerthoedd gwâr a fynegwyd yn y Bregeth ary Mynydd ac efengyl Crist. Dyna brif darddle ei ddynoliaeth fawr a theimladwy. Cofiwn amdano: cenedlgarwr, sosialydd, Cristion, a bonheddwr mwyn a hynaws y bu'n fraint ei adnabod. Estynnwn ein cydymdeimlad at ei blant Eleri ac Owain a'u teuluoedd – a fu mor wiw eu gofal amdano – yn eu colled a'u profedigaeth.

Gruffydd Aled Williams

Eisteddfod Rithiol Cenn@d Englyn ar y thema 'Galwad'

Beirniadaeth Eurig Salisbury

Daeth ateb gan bum englynwr, a diolch i bob un am fentro. Ar gownt un cam gwag bychan, dyma fwrw iddi gydag ymgais Amos – rhaid i rywun fynd yn gyntaf! Fydd Amos fawr o dro'n cywiro'n gwall ar ddiwedd yr ail linell, ond rhaid ei ganmol yn yr un gwynt am ei linell olaf gref:

A mi unwaith mewn cwm unig – yn grwm

O dan groes greithiog,
Y daeth i amheuw'r dig
Alwadau'r Anweledig.

Mae gwallau bychain gan Ty'n Rhewl a Gwaw'r hefyd – ill dau yn y gyfatebiaeth rhwng y gwant a dechrau'r ail linell. Ond fel arall, mae eu henglynion yn taro deuddeg:

Heddiw derbynia'i wahoddiad – i roi

I rywrai dy gariad.
Bydda'n fyw i'n Duw, Ei Dad;
Wedyn cei hedd dy Geidwad.

Mudandod hynod 'leni – yna, ust!

Heno, sain i'n llonni,
A chlychau Dy demlau Di
Yn alwad i addoli.

Ceir trawiadau da iawn yn englyn O Hyd, sy'n gwneud imi synhwyro bod yn ei gysgod englyn gwell:

Yn y swnd ôl eu sandalau – a'u hawch

I achub eneidiau,
Gwaed a drain mewn atseiniau,
Pŵer hon sydd yn parhau.

Gadawer y llinell olaf drawiadol yn ei lle, ond gweithier y testun i'r llinellau eraill, a daw englyn cryfach o lawer i'r golwg.

Mae un englyn ar ôl, eiddo Bowydd:

Un llais ymhlith y lleisiau – un gri fain

A gryfha'n gyffroau;
A daw galwad y Golau
Â'i gwys im i agosáu.

I mi, hwn yw'r englyn mwyaf crwn. Mae'r 'im' yn y llinell olaf yn henffasiwn, braidd, ond mae'r pedair llinell yn gymdeithion gwell i'w gilydd nag yn yr un o'r englynion eraill y tro hwn.

Ac ystyried fod y ffôn a Zoom wedi dod yn rhan mor hanfodol o fywyd bellach – ac yn gyfrwng i addoli fel i bob dim arall – ro'n i wedi hanner gobeithio y byddai galwadau'r rheini wedi chwarae rhan mewn ambell ymgais. Y tro nesaf, efallai! Tan hynny:

Am basio'r praw â'i awen,
Y celfydd Bowydd sy'n ben.

Enw'r enillydd yw Eirian Dafydd, Caerdydd. Llongyfarchiadau calonng iddi!

Gofalaeth newydd yn galw gweinidog newydd



Siân Elin Thomas

Mae pethau cyffrous yn digwydd mewn ardal fach yng ngorllewin Cymru. Mae dau gapel mewn dwy sir wahanol wedi uno i greu gofalaeth newydd. Penderfynodd Ebeneser (Dyfed), Eglwyswrw, a chapel y Graig yng Nghastellnewydd Emlyn ymuno i ddechrau cyfnod newydd yn eu hanes.

Wrth ddod at ei gilydd, fe wnaethon nhw fanteisio ar y cyfle i roi galwad i Siân Elin Thomas o Grymoch sydd newydd orffen astudio yng Ngholeg Bedyddwyr De Cymru a'r Coleg Gwyn, Bangor. Mae Siân Elin wedi aros yn ei milltir sgwâr i weithio a magu teulu ac yn falch iawn o'r cyfle nawr i weinidogaethu yn ei hardal leol. Mae ganddi brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc ac yn edrych ymlaen at ddatblygu'r ochr honno yn y ddau gapel. Mae hi hefyd yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda chartref gofal y Bedyddwyr, sef Cartref Glyn Nest, sydd wedi ei leoli yng Nghastellnewydd Emlyn. Ac fe fydd yna gyfleoedd i ymestyn allan ac agor drysau'r capeli unwaith yn rhagor i'r gymuned gyfan.

Cafodd y capeli a Siân Elin gefnogaeth werthfawr gan y ddau arolygwr o'r ddwy Gymanfa, sef y Parch Eirian Wyn Lewis (Sir Benfro) a'r Parch Irfon Roberts (Caerfyrddin a Cheredigion), wrth iddyn nhw fentro ar y cyfnod newydd yma.

Does dim amheuaeth nad oes yna dîm sy'n barod i gamu allan mewn ffydd i geisio pethau newydd yn enw ein Harglwydd Iesu Grist. Mae yna weledigaeth o gydweithio brwd yn y capeli a'u cymunedau. Bydd yr ofalaeth newydd yn dechrau yn swyddogol ym mis Medi. Bendith Duw ar yr adeg gyffrous yma.



Capel Ebeneser



Capel y Graig

Yr Ysbryd Glân – R Tudur Jones

Ffrwyth yr Ysbryd 5 – Llawenydd



Dros yr haf fe fyddwn yn cyflwyno penodau o glasur R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân*, a fu'n llyfr gosod i ddsbarthiadau oedolion yr Ysgol Sul ar gyfer 1972.

Y mae'n beth trawiadol mai llawenydd yw'r ail o ffrwythau'r Ysbryd yn rhestr Paul. Ond nid yw'n syndod o gofio fel mae llawenydd yn dygyfor yn barhaus ar dudalennau'r Testament Newydd.

Pan hysbyswyd Mair mai hi fyddai mam y Meseia, ei hymateb oedd, 'Y mae fy enaid yn mawrhau yr Arglwydd. A'm hysbryd a lawenydd yn Nuw fy lachawdwr.' (Luc 1:46-7) Yn sŵn llawenydd y ganwyd Iesu Grist. Disgrifiwyd ei eni i'r bugeiliaid fel 'newyddion da o lawenydd mawr' (Luc 2:10). Edrydd Mathew am y Doethion, 'A phan welsant y seren, llawenychasant â llawenydd mawr dros ben' (2:10). A dyma'r nodyn sy'n seinio trwy weinidogaeth Iesu Grist. Gyda llawenydd y mae'r sawl a ddarganfu Deyrnas Dduw'n gwerthu popeth er mwyn ei meddiannu hi (Mathew 13:44). Gyda llawenydd y dychwelodd y deg a thrigain o'u cenhadaeth wrth weld y cythreuliaid yn ddarostyngedig iddynt (Luc 10:17). Fore'r Atgyfodiad, aeth y ddwy Fair i adrodd yr hanes wrth y disgyblion 'gydag ofn a llawenydd mawr' (Mathew 28:8). Hyd yn oed ar y noson cyn iddo ddiodeff, adroddodd Iesu ddameg y Wir Winwydden wrth ei ddisgyblion 'fel yr arhosai fy llawenydd ynoch, ac y byddai eich llawenydd yn gyflawn' (Ioan 15:11). Ac addawodd y byddai'r tristwch a oedd ar fin eu goddiweddyd yn troi'n llawenydd na allai neb ei ladrata oddi arnynt (Ioan 16:20-24). Yn llyfr yr Actau gwelwn fel yr oedd llawenydd yn cyd-fynd â llwyddiant yr Efengyl (13:52; 15:3) a beth oedd hwn ond adlais o'r 'llawenydd yn y nef am un pechador a edifarhao' (Luc 15:7). Crynhodd Paul y cwbl pan ddywedodd mai 'cyfiawnder, a thangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glân' yw Teyrnas Duw (Rhufeiniaid 14:17).

Beth arall y gellid ei ddisgwyl yn sŵn y newyddion da fod pechod wedi'i goncro ond llawenydd?

Mae'r gair Groeg am lawenydd (*chara*) yn perthyn yn agos i'r gair am ras (*charis* –

neu Carys fel yr ydym yn ei adnabod fel enw merch). O gofio cyfoeth anarferol y gair 'gras' yn y Testament Newydd, bydd yr allwedd yn ein dwylo i werthfawrogi arwyddocâd 'llawenydd'. Ymateb i garedigrwydd achubol Duw yw llawenydd. Y peth sy'n ei ennyn yw fod Duw'n ein trin yn rasol. Am fod llawenydd wedi'i angori wrth raslonrwydd Duw, nid yw at drugaredd yr amgylchiadau. Nid yw'r chwaith at drugaredd ein cyflyrau seicolegol ni. Dyna pam y mae Paul yn annog y Philipiaid, 'Llawenhewch yn yr Arglwydd yn wastadol ...' (Philipiaid 4:4). Dim ond 'yn yr Arglwydd' y mae llawenydd 'gwastadol' yn bosibl. Heb hynny, nid yw ond hapusrwydd ysbeidiol sydd at drugaredd yr amgylchiadau. Y mae ei gysondeb yn dibynnu ar raslonrwydd digyfnewid Duw. Dyma pam y mae Paul yn gallu 'gorfoleddu [neu ymffrostio] mewn gorthrymderau' (Rhufeiniaid 5:3) ac yn dweud ei fod ef a'i gyd-weinidogion 'Megis wedi ein tristáu, ond yn wastad yn llawen' (2 Corinthiaid 6:10).

Mae hyn yn ein hatgoffa mai un o ffrwythau annisgwyl yr Ysbryd Glân yw'r llawenydd sy'n blodeuo mewn amgylchiadau croeson. Ystrydeb ymhlith crefyddwyr ym mhob oes yw llawenhau yn anrhegion dymunol Duw – iechyd, hawddfyd, prydferthwch y cread a gogoniannau bywyd. Ond beth am yr anawsterau, gorthrymderau, salwch a marwolaeth? A yw llawenydd yn bosibl wyneb yn wyneb â'r pethau hyn? O'r Epistol at y Philipiaid y cawn yr enghreifftiau gorau o lawenydd sy'n drech nag amgylchiadau. Mewn carchar a than gondemniad, pan oedd llawer rheswm dros ddigalonni, yr ysgrifennodd Paul y mwyaf gorfoleddus o'i lythrau. 'Gorfoleddu yng Nghrist' (3:3) yw ei gyfrinach ac nid yw hyd yn oed posibilrwydd cael ei ddiennyddio yn difa ei lawenydd: 'Ie, a phe y'm hoffrymid ar aberth a gwasanaeth eich ffydd, llawenhau yr wyf, a chydlawenhau â chwi oll. Oblegid yr un peth hefyd byddwch chwithau lawen, a chydlawenhewch â minnau.' (2:17-18)

Mewn cyfnod pan yw pesimistiaeth yn ffasiynol a llawer o Gristionogion yn gwneud digalonid yn esgus dros ddiogi, mae'n fater o gryn bwys i ailddarganfod ystyr 'llawenydd' yn y Beibl ac i weld ei gynefin ym mhatrwm gwaith grasol Duw. Wrth edrych o'n cwmpas, gwelwn bobl llawer sy'n Gristionogion digon diledryw mewn llawer ffordd yn suddo i dristwch. Gwelir arweinwyr Cristionogol yn esgeuluso eu gwaith ac aelodau eglwysig yn gwbl fflat a di-wefr. Llwyddwyd i greu'r argraff mai cartrefi digalonid a phesimistiaeth yw'r eglwysi ac na wyddant ddim am 'sŵn cynganedd a dawnsio' (Luc 15:25). Hyd yn oed pan benderfynir ei bod yn bryd 'dechrau bod yn llawen' (Luc 15:24), rhyw sbort gwneud sydd ganddynt. Pan yw cymaint o hiwmor ein cenhedaeth yn mynegi anobaith ac anffyddiaeth dynion, heb sôn am y sarhau ar greadigaeth Duw sy'n oblygedig mewn hiwmor maswedus ac aflednais, y mae'n syfrdanol nad yw Cristionogion yn gallu ei ateb â'r hiwmor ffyddiog hwnnw sy'n codi o'r wybodaeth mai hanfod y Gomedid Ddwyfol yw bod Satan wedi'i goncro. Ond nid yw llawenydd ffug ond yn dyfnhau a chadarnhau pesimistiaeth dynion. Nid yw'n ddim ond enghraifft o ddyn yn ceisio trwy ei ddoniau ei hun ysgafnhau tywyllwch anorfod ei annuwiaeth.

Anghofiodd Cristnogion i ormod graddau nad ffrwyth penderfyniadau pwyllgorau na chynnyrch nosweithiau llawen yw llawenydd Cristnogol. Y mae'n un o ffrwyth yr Ysbryd Glân. Mewn geiriau eraill, y mae iddo ddimensiwn sy'n ei wahaniaethu oddi wrth bob llawenydd a gynhyrhir gan ddynion o'u hadnoddau eu hunain. Y dimensiwn yma a gipiodd Pantycelyn mewn pennill rhyfeddol:

Nid oes terfyn ar fy ngobaith,
Cyraedd mae ymlaen o hyd;
Gyda'r Duwdod mae'n cydredeg,
Dyddiau'r ddau sydd yn ynghyd:
Annherfynol
Ydyw fy llawenydd mwy.

Ond heb yr Ysbryd, bydd terfyn buan iawn arno.

Darlleniadau: Ioan 16:20-24; Philipiaid 2:14-17; 3:1-8; 4:4-7.

Llyfrau:

Y diwinydd Cymreig a roes y mynegiant llawnaf i'r llawenydd Cristnogol yw Walter Cradoc, yn arbennig yn ei lyfr *The Saints Fulness of Joy* (1646). Anaml y trafodir y pwnc yn ein llynyddiaeth. Mae darn bach reit swynol gan Lewis Bayley yn *Yr Ymarfer o Dduwioldeb* (adargraffiad 1930, 57-60), ac y mae Charles yn wresog wrth drafod 'Llawen' yn ei *Eiriadur. Gw.* hefyd Ebenezer Morris, 'Calon Lawen yn Wledd', *Y Gofadail Fethodistaidd*, II, 80-7; Michael Roberts, *ibid.*, 247-55, 'Llawenydd ynglŷn a bod yn gadwedig'; William Morris (Cilgerran), 'Iachawdwriaeth a'i Llawenydd', *Pregethau*, 365-73.

Ffydd a Diwylliant

Dilema, drama a delwedd

Ymysg nifer o ddadleuon sydd wedi cymylu trafodaethau Yes Cymru'n ddiweddar mae un am iddyn nhw neilltuo cyllideb ar gyfer creu darn o theatr stryd.

I'r puryddion polisi roedd hyn yn wastraff tâl aelodaeth. Ac maen nhw'n iawn i raddau. Heb weledigaeth glir, polisi i grisialu hynny a strategaeth i'w weithredu, mae'n llanast. Ond dydy Yes Cymru ddim yn brin o'r pethau hynny. Ond heb y raliau, roedden nhw'n brin o ddrama'r lleiafrif swnllyd, lliwgar, diddorol, dadleuol yn perfformio i gynulleidfa fwy, a gwneud iddyn nhw feddwl.

Drama oedd Bws Mawr Coch Boris a'r 'lein' am £350,000 ar ei ochr. Llwyddodd i ysgogi trafodaeth ac ennill refferendwm iddo fo.

Ond mae'n anodd gan rai, 'puryddion diddychymyg' yn aml, *fuddsoddi* mewn celfyddyd. Maen nhw'n gweld ei werth ar ôl iddo fo ddigwydd (a hynny am y nesa peth i ddim fel arfer) ond mae buddsoddi ynddo, pan allech chi golli arian prin y tanysgrifiad, yn broblem.

Drama ydy mynd ar un glin cyn gêm bêl-droed. Poeni mae Priti Patel mai *dim ond 'gesture politics'* ydy hynny. Wrth gwrs mai dim ond gweithred ydy hi, ond mae awgrymu nad oes dim poen, gweledigaeth, polisi a strategaeth y tu ôl iddi yn datgelu lle mae hi a'r bobl sy'n



Murlun Marcus Rashford

bwio yn sefyll. Mae'r ddrama, er yn hyll ar brydiau, yn symud y drafodaeth ymlaen.

A pha ddrama fwy na chiciau o'r smotyn ar derfyn gêm dyngedfennol? Miliynau'n bloeddio ar gae a sgrin i dymuno llwyddiant a methiant mewn dognau cyfartal. Llinyn y ddrama'n dynn, dynn rhwng y penlinio ar y dechrau a'r tri bachgen ifanc yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb eithaf ar y diwedd. Ac yn methu. A'r bwio'n parhau.

Ac wedyn mae'r sylw'n troi at fath arall o gelfyddyd. At furlun ar dalcen adeilad ym Manceinion a llun arno fo o Marcus Rashford. Teyrnged i'w rifanc, talentog oedd wedi gwneud safiad gwleidyddol o fath gwahanol cyn hynny. Liw nos fe baentiwyd dros y murlun. Ond liw

dydd daeth cannoedd yno a gorchuddio'r murlun â negeseuon o gefnogaeth a chariad. Celfyddyd yn creu drama a drama'n ysgogi trafodaeth a strategaeth. Un artist yn ysgogi graffiti roddodd gyfle i gannoedd fynegi eu cefnogaeth gyhoeddus i'r hyn oedd y gelfyddyd yn ei gyfleu yn y lle cyntaf.

Pobl geiriau a nodau ydyn ni'n bennaf. Beirdd a chantorion a phregethwyr, wrth gwrs. Ond nid i anrhydeddu'r geiriau na'r nodau mae pobl yn pacio pafiliwn am yr ychydig droeon mewn wythnos eisteddfodol, ond i fwynhau'r ddrama.

Dyna lwyddodd awduron sgript Crist i'w wneud. Sgriptio'r Rali ar y Mynydd a'r dramâu bychain oedd yn creu trafod: cerdded ar ddŵr, bwydo'r miloedd, iacháu'r cleifion, atgyfodi. Lleiafrif swnllyd, lliwgar, diddorol, dadleuol yn perfformio i gynulleidfa fwy, a gwneud iddyn nhw feddwl.

Felly, be am werthu capeli a phrynu bysiau mawr coch? Neu baentio'n bocsys llwydaidd â murluniau lliwgar o arwyr ifanc sy'n bwydo plant tlawd? A phan fydd unigolion yn sgwennu pethau cas arnyn nhw, dyna gyfle i ni godi allan a chuddio'r creithiau gyda'n negeseuon o gefnogaeth a chariad.

Rocet Arwel Jones

(Gol. Cafwyd erthygl hynod o ddiddorol am fagwraeth Gristnogol a ffydd Saka, Rashford a Sterling yn y *Guardian*: www.theguardian.com/football/2021/jul/17/god-given-talent-saka-rashford-and-sterling-blaze-a-trail-for-black-british-christians)

Y Traethodydd yn cofio canmlwyddiant geni R. Tudur Jones

Gan mlynedd yn ôl i eleni y ganed yr ysgolhaig a'r arweinydd crefyddol dylanwadol R. Tudur Jones, ac yn rhifyn Gorffennaf o'r *Traethodydd* ceir ysgrif gan y golygydd yn dwyn ei gyfraniad i gof ac yn tafoli ei waith. Bydd llawer o ddarllenwyr *Cenn@d*, fel darllenwyr *Y Tyst*, yn cofio amdano ac nid hwyrach yn ddyledus iddo am yr hyn a gyflawnodd mewn oes gyfan o ymroddiad dros fuddiannau'r ffydd yng Nghymru. Pleser yw cael talu teyrnged iddo fel hyn a dwyn ei waith i sylw cenhedlaeth na chafodd y fraint o'i adnabod.

Yn ogystal â'r ysgrif deyrnged, mae Pryderi Llwyd Jones, yn yr ail o'i ysgrifau ar y pwnc, yn parhau i'n goleuo ni ynghylch bywyd a gwaith George Herbert, y bardd o'r Gororau. Cawsom wybod y tro o'r blaen am droeon ei fywyd lliwgar yn y brifysgol ac yn y llys, a cheir mwy y tro hwn am nodweddiad ei weinidogaeth fel offeiriad cefn gwlad mewn plwyf disylw, ac am athrylith ei awen. Fel y dywedwyd y tro diwethaf,

mae cymhlethdodau'r stori'n adlewyrchu cymhlethdodau personoliaeth sydd, fodd bynnag, yn swynol ryfeddol. Gwych o beth yw cael darllen amdano a'r hyn sydd ganddo i'w ddweud wrth ein cenhedlaeth rwyfus ni.

Trwy law'r Prifardd Meirion Evans daeth ysgrif i law ar R. Silyn Roberts a'r Delyneg. Rhan o draethawd ymchwil ei ddiweddar fab, Geraint, yw'r ysgrif, traethawd na chyhoeddwyd hyd yma ond sy'n gyfraniad gwir werthfawr i'n dealltwriaeth o feirdd rhamantaidd dadeni llenyddol dechrau'r ugeinfed ganrif. Yn ogystal â'n cyfarwyddo yn y maes, mae'r ysgrif yn deyrnged i ysgolhaig disglair a gollasom yn llawer rhy gynnar. Braint eto yw cyhoeddi'r ymdriniaeth hon.

Cyfrwl sydd wedi achosi cryn drafodaeth yn ystod y misoedd diwethaf yw *Ysbryd Morgan: Adferiad y Meddwl Cymreig* gan yr athronydd ifanc Huw L. Williams, ac amheuthun yw medru rhoi llwyfan i ddeialog ystyrlawn a chraff rhwng yr awdur a dau o'i gyfoeswyr,

sef Carwyn Graves a Dewi Alter. Pelagius, y mynach Brythonig o'r bedwaredd ganrif, yw 'Morgan' y teitl, er bod islais Morgan arall, sef y piwritan radical Morgan Llwyd i'w glywed yn yr ymgomio hefyd. Beth yw'r 'meddwl Cymreig', a beth sydd ganddo i'w ddweud wrthym yn nhrdydd degawd yr unfed ganrif ar hugain? Cewch eich goleuo gan y drafodaeth ddeallus hon, a'ch herio yr un pryd.

Yr uchod, ynghyd â'r ail ysgrif yng nghyfes Enid Morgan 'Ar y ffiniau', cerddi gan Goronwy Wyn Owen a Mary Burdett-Jones a chyfieithiad Pryderi Llwyd Jones o ddwy o gerddi mawr George Herbert, yw cynnwys y rhifyn cyfoethog hwn o gylchgrawn hynaf Cymru a 'Chylchgrawn y Diwylliant Cymraeg'. Wedi'i argraffu gan Wasg Gomer, Llandysul, gellir ei archebu ar lein trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch ag Alice Williams (alice@ebcpw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Rhodio yn deilwng o'n galwad

Emyn 710 – ‘Arglwydd Iesu, dysg i'm gerdded’

Darlenniad 1

Salm 51:1-19 – ‘Cyffes Dafydd’

Gwedd

Arglwydd, agor fy ngwefusau, a bydd fy ngenau yn mynegi dy foliant. Eto ymwybodol wyf, O Dad sanctaidd, fel Dafydd, o'm natur syrthiedig – oherwydd gwn am fy nhroseddau, ac y mae fy mhechod yn wastad gyda mi. Bydd drugarog wrthyf, O Dduw, yn ôl dy ffyddlondeb; yn ôl dy fawr dosturi, dilea fy nhroseddau; golch fi yn llwyr ddwys oddi wrth fy anwiredd, a glanha fi oddi wrth fy mhechod. Diolch bod haeddiant Iesu'n fwy na digon fel y byddaf wynnach na'r eira. Dysg fi, nawr, i rodio'n deilwng ger dy fron, a chyrraedd fy nghyflawnder ynddo Ef. Amen.

Darlenniad 2

Effesiaid 4:1-16 – ‘Byw yn deilwng’

Myfyrdod

Cerdded o amgylch

Rhyw ddeng mlynedd yn ôl, gwelais ŵr ifanc yn cerdded tuag ataf ar hyd y stryd, a meddyliais i fy hun, ‘Wel, am gerddediad od sydd gan hwnnw’. Daeth yn nes ataf, ac wele fy mab fy hun ydoedd, a dyma sylwi bod ei gerddediad yn debyg iawn i'w dad. Bu'n achos llawer o hwyyl yn y teulu, ond fe barodd i mi edrych ar sut rwyf yn rhodio, ac ymestyn fy ngham ychydig mwy.

Fe adlewyrchir y digwyddiad yma mewn idiom ddiddorol yma yn Effesiaid 4:1: ‘Yr wyf fi ... yn eich annog i fyw yn deilwng (‘ar rodio ohonoch yn addas’ – BWM) o'r alwad a gawsoch.’ Wedi dadlennu'r Efengyl mewn modd mor ddigamsyniol ym mhenodau 1-3 mae Paul, sy'n garcharor ei hun, am iddynt fyw mewn modd sy'n deilwng o'r waredigaeth honno.

Mewn cyferbyniad i'w gaethiwed ei hun mae am iddynt, o gyfieithu'r Roeg yn led-llythrennol, ‘gerdded o amgylch’ (*peripathvsai*) mewn modd sy'n adlewyrchu'r bywyd newydd yng Nghrist ac yn tystio iddo. Fe gofiwch i'r bennod ddiwethaf orffen gyda'r ‘Iddo Ef’ a'i haeddiant (3:20-21). Cefais gyflwyniad cynnar i'r gair yma wrth fod fy nhad yn athro teithiol neu ‘peripatetig’, un oedd yn mynd o un ysgol i'r llall.

Down ar draws y darlun geiriol yma'n gyson drwy'r Beibl, gan gyfeirio at ein buchedd, ein hymarweddiad a'n hymddygiad. Er enghraifft, gweddiodd Moses, ‘Yn awr, os cefais ffafr yn dy olwg, dangos i mi dy ffyrdd’ (Exodus 33:13); ‘Dysg i mi dy ffordd,’ meddai Dafydd (Salm 27:11); a ‘Myfi yw'r ffordd’ datganodd Iesu; yn wir, fe ddywed, ‘Fe wyddoch y ffordd i'r lle'r wyf fi'n mynd’ (Ioan 14:6,4). A hyn i gyd yn adlewyrchu awydd Duw yn Eden i rodio yn yr ardd gan alw ar Adda ac Efa.

Ymrowch

Mae Duw am fod yn gydymaith â ni yn y bywyd mae'n ein galw iddo. Mae adnodau 2-6 yn ddisgrifiad o'r undod a'r bywyd newydd yma, ar ei lun a'i ddelw: ‘Byddwch yn ostyngedig ac addfwyn ym mhob peth, ac yn amyneddgar, gan oddef eich gilydd mewn cariad. Ymrowch i gadw, â rhwymyn tangnefedd, yr undod y mae'r Ysbryd yn ei roi.’

Daw'r undod fel rhodd oddi wrth Dduw ei hun; ein hochr ni yw ymroi i'w gadw. Sut? Byw yn deilwng o'n galwad, trwy ei ras, o'r bendithion ysbrydol a ddadlennwyd ym mhenodau 1 a 2.

Ond i bob un ohonom rhoddwyd gras

Rydym wedi syrthio i'r arfer anffodus, yma yng Nghymru, o gamgyrwyd gwirionedd ysbrydol am falchder. Sylwch ar iaith gynhwysol adnod 7, ‘i bob un ohonom rhoddwyd gras, ei ran o rodd Crist’. Yn sicr, mae Paul yn mynd yn ei flaen i wahaniaethu'r gwahanol roddion: yn apostol, proffwyd ayb. Ond fel cydaelodau o'r corff unedig, rhyfeddol hwn, mae i bob un ei ran o rodd Crist. Mae lle i ni edifarhau am fychanu ei rodd a'i waith ynom, yn wir ei negyddu drwy ryw wyleidd-dra ffals. Wedi'r cyfan, ‘ei waith ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a ragddarparodd Duw, fel y rhodiem ni ynddynt’ (2:10 – BWM; sylwch ar ‘rhodiem ni ynddynt’).

I gymhwyso'r saint

Er i mi gael fy ordeinio'n weinidog 28 mlynedd yn ôl, rwy'n dal i fod yn anesmwyth gyda'r teitl ‘Parchedig’. Rwy'n credu bod lle i barchu'r swydd, ond mae geiriau ‘Nhaid yn aros efo mi, ‘Rhaid i ti ennill parch, wst ti.’ Dydi o ddim mor syml â hynny, mi wn, ond onid yw'r ‘gweinidog’, o ba draddodiad bynnag, wedi syrthio i'r

bai yn rhy aml o hawlio parch? Sylwch ar ddiben y rhoddion gweinidogaethol hyn: ‘i gymhwyso'r saint i waith gweinidogaeth, i adeiladu corff Crist. Felly y cyrraeddwn oll hyd at yr undod a berthyn i'r ffydd ac i adnabyddiaeth o Fab Duw. Y nod yw dynoliaeth lawn dwf, a'r mesur yw'r aeddfedrwydd sy'n perthyn i gyflawnder Crist.’ (4:12-14)

Rydym oll i gael ein cymhwyso i'r gwaith, a chyrraedd ein llawn dwf wrth ei wneud. Wrth gwrs, mae cyfrifoldeb ar bob aelod yn hyn hefyd. Ro'n i'n ffysi fel plentyn, yn gwrthod bwyta yn iawn; does rhyfedd i'm dau frawd dyfu bedair modfedd yn dalach na mi!

Gyfeillion, ‘gadewch i ni ddilyn y gwir mewn cariad, a thyfu ym mhob peth i Grist. Ef yw'r pen, ac wrtho ef y mae'r holl gorff yn cael ei ddal wrth ei gilydd a'i gysylltu drwy bob cymal sy'n rhan ohono. Felly, trwy weithgarwch cyfaddas pob un rhan, ceir priant yn y corff, ac y mae'n ei adeiladu ei hun mewn cariad.’

Rhodio yn deilwng

A yw fy ngerddediad yn debyg i'r modd y rhodiodd fy mrawd mawr Iesu? Fe welwn yma (adn 8-10) i Iesu ei ddarostwng ei hun, ac fe welwn ym mhenodau 5 a 6 fod darostwng i Dduw ac i'n gilydd yn nodwedd o'r undod â berthyn i'n ffydd. Wrth i ni ddod allan o'r argyfwng dwys hwn, gadewch i ni i gyd ymroi i rodio'n deilwng o'n galwad.

Gwedd

Arglwydd Iesu, dysg im gerdded drwy y byd yn ôl dy droed; 'chollodd neb y ffordd i'r nefoedd wrth dy ganlyn di erioedd: mae yn olau ond cael gweld dy wyneb di.

Araf iawn wyf fi i ddysgu, amyneddgar iawn wyt ti; mae dy ras yn drech na phechod – aeth dy ras â'm henaid i; paid rhoi 'fyny

nes im gyrraedd trothwy'r drws. Amen. (Elfed)

Emyn 673 – ‘Fy ngorchwyl yn y byd’

Hywel Rhys Edwards
Y Parc

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)